GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Cervical Screening Wales
Sgrinio Serfigol Cymru

Ar ôl eich hysterectomi neu atgyweiriad Manchester

Gallwch gael ein taflenni i gyd mewn print mawr, ar dâp sain ac mewn Braille.

Mae'r daflen hon yn rhoi gwybodaeth am sgrinio serfigol (sgrinio gwddf y groth) i fenywod sydd wedi cael hysterectomi neu atgyweiriad Manchester.

Beth yw sgrinio gwddf y groth (serfigol)?

Prawf yw sgrinio serfigol i edrych ar gyflwr gwddf y groth neu'r serfics, sef rhan isaf y groth.
Nid pwrpas y prawf yw gwneud diagnosis o ganser gwddf y groth - y nod yw atal canser rhag datblygu.

Beth sy'n digwydd wrth i rywun gael hysterectomi neu atgyweiriad Manchester?

Mae hysterectomi'n golygu tynnu'r groth gan gynnwys gwddf y groth fel arfer – sef 'hysterectomi cyfan'.
Mewn rhai achosion bydd gwddf y groth yn cael ei adael, a 'hysterectomi llai cyfan' yw'r enw ar hwn. Os ydych chi wedi cael hysterectomi llai cyfan, dylech chi barhau i gael profion taeniad gwddf y groth hyd nes y byddwch chi'n 65 oed.
Gall eich meddyg ddweud wrthych chi pa fath o hysterectomi rydych chi wedi'i gael.

Mae atgyweiriad Manchester yn golygu tynnu gwddf y groth, ond gadael y groth ei hun.

Pryd byddai angen i mi gael mwy o brofion taeniad?

Ar ôl cael hysterectomi cyfan neu atgyweiriad Manchester, ni fyddai angen fel arfer i chi gael mwy o brofion taeniad. Ond efallai bydd angen i chi gael mwy o brofion: (1) os cawsoch chi'r hysterectomi cyfan neu'r atgyweiriad Manchester ar ôl prawf taeniad annormal, neu (2) os oedd newidiadau i'w gweld yn eich serfics ar adeg y llawdriniaeth neu rywdro yn y gorffennol. Yn ôl eich amgylchiadau chi, efallai bydd angen i chi gael: -

- Un prawf chwe mis ar ôl eich hysterectomi neu'ch atgyweiriad Manchester
- Un prawf chwe mis ar ôl eich hysterectomi neu'ch atgyweiriad Manchester, ac un arall flwyddyn yn ddiweddarach
- Profion rheolaidd am gyfnod hirach.

CSW10 (Ver 3) 03/10

Bydd y samplau yma'n cael eu cymryd o ran uchaf y wain (cromen y wain) mewn ffordd debyg i brawf taeniad arferol. Os byddwch chi angen y profion yma byddwch chi'n cael gwahoddiad drwy'r post ar yr adeg iawn.

Pwy fydd yn gwneud y profion taeniad yma?

Bydd eich llythyr yn esbonio lle bydd y profion yn cael eu gwneud. Efallai y byddwch chi'n cael eich galw i'ch meddygfa. Weithiau bydd y profion yn cael eu gwneud mewn clinig colposgopi a byddwch chi'n cael apwyntiad ar eu cyfer.

Beth os yw unrhyw rai o'r profion taeniad yma'n annormal?

Os nad ydych chi'n cael profion taeniad mewn clinig colposgopi yn barod, byddwch chi'n cael eich cyfeirio i fynd yno i gael archwiliad.

Oes gennych chi fwy o gwestiynau?

Mae Sgrinio Serfigol Cymru hefyd wedi cyhoeddi llawer o daflenni am y gwahanol agweddau ar sgrinio gwddf y groth. Maen nhw ar gael o:

- Y Cyfarwyddwr, Sgrinio Serfigol Cymru,
18 Heol y Gadeirlan, Caerdydd,
CF11 9LJ
- ein gwefan

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am ein gwasanaeth:

- Gofynnwch i'ch meddyg teulu
- Cysylltwch â'ch clinig iechyd lleol
- Ewch i'n gwefan
- Ewch i wefan Galw Iechyd Cymru: www.galwiechydcymru.wales.nhs.uk neu ffoniwch 0845 4647